Concordat rhwng Yr Archifau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rheoli cofnodion cyhoeddus

Cyflwyniad

1. Mae'r Concordat hwn a'i atodiadau yn amlinellu'r gyd-ddealltwriaeth rhwng Yr Archifau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Datganiad o fwriad yw'r Concordat hwn ac ni ddylid ei ystyried yn gytundeb neu'n gontract cyfrwymol. Nid yw'n creu hawliau, rhwymedigaethau na chyfyngiadau cyfreithiol rhwng y partïon. Nid yw'n creu unrhyw hawliau i fod yn rhan o ymgynghori neu i atal ymgynghori y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol drwy statud.

2. Nod y Concordat hwn yw hybu cydweithio a chyfathrebu adeiladol. Mae'n cyflwyno fframwaith i helpu swyddogion i barhau i feithrin perthnasoedd rhwng y ddau barti. Y prif nod yw sicrhau bod digon o flaenrybudd yn cael ei roi os bydd un yn bwriadu cymryd camau a fydd yn gwrthdaro â chyfrifoldebau'r llall.

3. Y brif sianel gyfathrebu ar bob mater yn ymwneud â chofnodion cyhoeddus Cymru[1] fydd honno rhwng y swyddog Archifau Gwladol â chyfrifoldeb arweiniol am gysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch cofnodion a gwybodaeth a Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth y Cynulliad. Dylai ymgynghori ffurfiol fod yn ysgrifenedig fel rheol ond dylid sicrhau cyswllt anffurfiol rheolaidd hefyd lle bynnag y bo modd. Ym mhob achos yn ymwneud â chofnodion cyhoeddus Cymru lle y defnyddir sianelau eraill, dylai'r swyddog dynodedig o'r Archifau Gwladol a'r Swyddog Cofnodion Adrannol gael eu hysbysu'n llawn yn rhan o'r drefn.

---

[1] Yr hyn a olygir wrth "gofnodion cyhoeddus Cymru"

(1) Mae cofnodion cyhoeddus Cymru yn cynnwys y canlynol:

(a) cofnodion gweinyddol ac adrannol sy'n eiddo i'w Mawrhydi ac a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru,

(b) cofnodion gweinyddol ac adrannol yr Archwilydd Cyffredinol,

(c) cofnodion gweinyddol ac adrannol sy'n eiddo i'w Mawrhydi ac a gynhyrchwyd neu a gedwir gan unrhyw adran o'r llywodraeth sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion Cymreig,

(d) cofnodion gweinyddol ac adrannol sy'n eiddo i'w Mawrhydi ac a gynhyrchwyd gan unrhyw swyddfa, comisiwn neu gorff neu sefydliad arall o dan Lywodraeth Ei Mawrhydi sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion Cymreig mewn maes neu feysydd lle y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau, neu lle y mae gan Brif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol swyddogaethau,

(e) cofnodion gweinyddol ac adrannol y cyrff a'r sefydliadau a nodir yn is-adran (2) (ond nid cofnodion ysbytai'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru y nodwyd eu bod wedi'u heithrio rhag bod yn gofnodion cyhoeddus at ddibenion Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 (p. 51) yn achos ysbytai'r gwasanaeth iechyd yn Lloegr), ac

(f) cofnodion o unrhyw ddisgrifiad arall (ac eithrio cofnodion y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad neu gofnodion unrhyw lys neu dribiwnlys neu a gedwir yn un o adrannau'r Uwchlysoedd) a bennir drwy orchymyn gan yr Arglwydd Ganghellor.

Y Fframwaith Cyfreithiol

4. Mae Deddf Llywodraeth Cymru (DLlC) 2006, Rhan 6, aa.146-148 yn:

   - Nodi categori o gofnodion a elwir yn 'gofnodion cyhoeddus Cymru'[2]. Rhestrir y cofnodion sy'n perthyn i'r categori hwn yn a.148 o DLlC 2006.

   - Hepgor cofnodion Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad gynt) yn dyddio o Fai 2007 o'r diffiniad o gofnodion cyhoeddus Cymru.

   - Galluogi Llywodraeth Cynulliad Cymru, os bydd yn dymuno, i wneud trefniadau addas i ddethol cofnodion cyhoeddus Cymreig i'w storio am y tymor hir, ac i sefydlu gwasanaethau i ganiatáu i'r cyhoedd weld y cofnodion. Os bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu gwneud hyn, bydd y trefniadau'n cael eu hasesu gan swyddogion o'r Archifau Gwladol yn unol â'r safonau sy'n berthnasol i ystorfeydd archifau'r DU. Pan fydd yr Arglwydd Ganghellor wedi cymeradwyo'r trefniadau hyn, bydd yn gwneud Gorchymyn yn trosglwyddo'r holl gyfrifoldeb am gadw cofnodion cyhoeddus Cymru naill ai i Weinidogion penodol yng Nghymru neu i aelod o Lywodraeth y Cynulliad.

   - Mynnu bod Prif Weithredwr a Cheidwad Yr Archifau Gwladol, ar ran yr Arglwydd Ganghellor, yn goruchwylio'r trefniadau cyfredol ar gyfer cofnodion cyhoeddus Cymru nes bod Gorchymyn yn cael ei wneud.

5. Bydd y Concordat hwn yn parhau mewn grym tra bod y trefniadau cyfredol ar gyfer ymdrin â chofnodion cyhoeddus Cymru yn berthnasol.

Y rhyngweithio rhwng cyfrifoldebau'r Archifau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru

6. Mae cyfathrebu da yn hanfodol i alluogi cydweithio adeiladol, felly bydd y ddau barti yn:

   - Ceisio cynnwys ei gilydd, pan fydd yn briodol, wrth lunio polisïau ar reoli gwybodaeth a chofnodion;
   - Hysbysu ei gilydd ynghylch datblygiadau sy'n effeithio ar feysydd yn ymwneud â rheoli hysbysrwydd a gwybodaeth;
   - Rhoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau'r llall a lle bo modd yn caniatáu cyfnod rhesymol i ystyried sylwadau, dadleuon a gwybodaeth yn iawn;
   - Rhoi gwybod i'w gilydd am unrhyw gamau y gallai fod angen eu cymryd ac am unrhyw oblygiadau adnoddol i'r parti arall;

[2] Diffiniwyd hyn am y tro cyntaf yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998, a.116 i a.118.

- Rhoi blaenrybudd, cyn gynted ag y bydd yn ymarferol bosibl, o gyhoeddiadau polisi pwysig newydd ynghylch rheoli cofnodion;
- Rhannu gwybodaeth, dadansoddiadau ac ymchwil ynghylch rheoli gwybodaeth a chofnodion, lle y byddai trefniadau o'r fath yn fuddiol i'r ddau;
- Ceisio cynnwys ei gilydd mewn materion parhad digidol oddi mewn i'r Archifau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn y gwaith o gadw setiau data a gwefannau yn awtomatig mewn archif briodol ar y we – gweler 10 isod.

7. Bydd Yr Archifau Gwladol yn:

- Rhoi canllawiau ac yn cymeradwyo safonau ar gyfer y meysydd bras canlynol:
    - Rheoli gwybodaeth a chofnodion;
    - Rheoli cofnodion gweithredol;
    - Arfarnu cofnodion;
    - Paratoi cofnodion dethol i'w trosglwyddo i'r Archifau Gwladol neu i leoedd adneuo eraill ar gyfer cofnodion cyhoeddus a gymeradwywyd o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, a.4(1);
    - Gwasanaethau i'r cyhoedd gael gweld cofnodion cyhoeddus Cymru.

- Caiff canllawiau a chymorth eu darparu drwy:
    - Ymweliadau rheolaidd gan staff Yr Archifau Gwladol yn ôl yr angen;
    - Rhoi cyngor penodol ar ffurf ysgrifenedig, deleffonig neu electronig;
    - Darparu'r canllawiau a'r safonau cyhoeddedig sydd ar gael;
    - Darparu seminarau a chyfarfodydd yn ôl yr angen.

8. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn:

- Cyflawni'r swyddogaethau isod yn unol â safonau'r Archifau Gwladol:
    - Ymgynghori â'r Archifau Gwladol yn ôl yr angen, ond yn benodol ar faterion rheoli gwybodaeth a rheoli cofnodion cyfredol;
    - Arfarnu, paratoi a throsglwyddo cofnodion a setiau data dethol i'r Archifau Gwladol yn rheolaidd ac yn brydlon;
    - Sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio yn yr amgylchedd cofnodion wedi'u hyfforddi yn unol â safonau'r Archifau Gwladol a bod staff perthnasol yn cael eu hannog i gofrestru ar gyfer digwyddiadau hyfforddi'r Archifau Gwladol yn ôl yr angen;
    - Creu, trefnu a storio'r holl gofnodion (waeth beth fo'u ffurf) mewn ffordd a fydd yn sicrhau eu bod yn goroesi ac yn adalwadwy.

Y berthynas â Swyddfa Cymru

9. Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw ceidwad y setliad datganoli a'r un sy'n gyfrifol am lywio deddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud â Chymru drwy Senedd San Steffan. O dan ymbarél y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Swyddfa Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod buddiannau Cymru a safbwyntiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu hystyried yn llawn ym mhob mater llywodraeth ganolog, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol, sy'n effeithio ar Gymru.

Tryloywder

10. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi setiau data, nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth sensitif, ar wefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ffurfiau a fydd yn caniatáu i'r wybodaeth gael ei hailddefnyddio. Dylid eu cyflwyno heb bethau fel mewngofnodion a detholiadau rhestr ddewis, fel y gellir lawrlwytho'r data heb unrhyw ymyriad arall gan y defnyddiwr. Yna bydd modd casglu'r setiau data ynghyd yn awtomatig mewn archif briodol ar y we[3] a ddylai ddarparu porth priodol ar gyfer rhannu setiau data agored y llywodraeth. Dylid cadw setiau data sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif o dan gyfundrefn Parhad Digidol oddi mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

11. Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd yn gyfrifol am gydgysylltu'r gweithgarwch hwn oddi mewn i Lywodraeth y Cynulliad ac am adrodd ar y gweithgarwch i'r Grŵp Ymarferwyr ar Dryloywder a gydgysylltir gan Yr Archifau Gwladol neu grwpiau olynol.

Cyrff cofnodion cyhoeddus Cymru

12. Gweler Atodiad A.

13. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am ariannu'r rhan fwyaf o'r cyrff hyn. Dylai Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar y cyd â'r Archifau Gwladol, sicrhau bod cofnodion a rennir â chyrff eraill neu a gedwir ar ei rhan yn cael eu rheoli yn unol â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 46 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud ei gorau, ar y cyd â'r Archifau Gwladol, i sicrhau bod unrhyw gorff sy'n creu neu'n cadw cofnodion ar ei rhan yn rheoli'r cofnodion hynny'n briodol.

[3] 'Archif briodol ar y we' – Mae cytundeb wedi'i sefydlu rhwng Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Archifau Gwladol y bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn archifo gwefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwefan newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru (nid yw'r olaf yn gorff cofnodion cyhoeddus bellach). Bydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn cadw gwefannau cyrff sy'n adrodd i, a ariennir gan, neu a sefydlwyd gan y naill neu'r llall o'r cyrff llywodraethol hyn. O hyn ymlaen, bydd Yr Archifau Gwladol hefyd yn cadw gwefan LlCC yn unig.

14. Pan sefydlir unrhyw gorff noddedig newydd, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau ei bod yn ystyried yn briodol a ddylai cofnodion y corff gael statws cofnod cyhoeddus Cymreig o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

15. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ystyried a ddylid newid statws cofnodion cyrff sydd eisoes yn cael eu noddi nad yw eu cofnodion ar hyn o bryd yn gofnodion cyhoeddus Cymreig; os penderfynir newid eu statws, dylid rhoi gwybod i'r Archifau Gwladol[4].

Swyddfa Gofnodion Genedlaethol i Gymru

16. Nodir yn adran 146 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fod cofnodion cyhoeddus Cymru (fel y'u diffinnir gan a.148) yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 hyd nes bod yr Arglwydd Ganghellor yn gwneud Gorchymyn o dan a.147. Byddai'r Gorchymyn hwn yn gosod neu'n cyflwyno swyddogaethau naill ai i Weinidogion Cymru neu i aelod o staff Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'r cofnodion hynny (er enghraifft, dyletswydd i'w cadw ac i ganiatáu i eraill eu gweld).

17. Byddai hyn i bob pwrpas yn rhoi'r awdurdod i greu Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Genedlaethol i Gymru. Bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fodloni'r Arglwydd Ganghellor ei bod yn gallu cyrraedd y safonau sy'n ymwneud â storio, gweld a chadw cofnodion cyhoeddus y DU. Os bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n penderfynu datblygu opsiynau ar gyfer Archifau Cenedlaethol i Gymru, disgwylir iddi roi gwybod i'r Archifau Gwladol cyn gynted â phosibl.

18. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Archifau Gwladol yn:

- Rhoi gwybod yn brydlon os bydd cynnig penodol yn debygol o fodloni'r safonau o ran cadw a gweld sy'n berthnasol i gofnodion cyhoeddus yr ymdrinnir â hwy gan Ddeddfau Cofnodion Cyhoeddus 1958 a 1967.
- Hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru ymlaen llaw o unrhyw newidiadau mawr i'r safonau hyn.

[4] Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a'r Archifau Gwladol ar hysbysu "cwsmeriaid" a "pherchnogion prosesau" yr effeithir arnynt gan y newid, a amlinellir yng nghyhoeddiad yr Archifau Gwladol, *Machinery of Government Changes: Guidance on Transfer of Records, Information and Knowledge*.

Concordat rhwng Yr Archifau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rheoli cofnodion cyhoeddus

Llofnodwyr y Concordat hwn

Cyfeiriadau a Llofnodwyr

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Adeiladau Newydd y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF1 3NQ

Yr Archifau Gwladol
Kew
Richmond
Surrey
TW9 4DU

Llofnodwyd gan y Fonesig Gillian Morgan [Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru] o dan awdurdod Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru.

Y Fonesig Gillian Morgan ..... Dyddiad .....

Llofnodwyd ar ran Yr Archifau Gwladol.

Prif Weithredwr a Cheidwad Dros Dro Yr Archifau Gwladol

Oliver Morley ..... Dyddiad .....

Concordat rhwng Yr Archifau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rheoli cofnodion cyhoeddus

Atodiad A

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a.148 yn disgrifio cofnodion cyhoeddus Cymru fel a ganlyn:

Yn a.148(1)(a), *"cofnodion gweinyddol ac adrannol sy'n eiddo i'w Mawrhydi ac a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru"*.

Yn a.148(1)(b), nodir bod cofnodion yr Archwilydd Cyffredinol yn gofnodion cyhoeddus Cymreig.

Yn a.148(1)(c), nodir bod cofnodion a gedwir gan unrhyw adran o'r llywodraeth sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion Cymreig yn gofnodion cyhoeddus Cymreig.

Yn a.148(1)(d), nodir bod cofnodion unrhyw swyddfa, comisiwn neu gorff neu sefydliad arall o dan Lywodraeth Ei Mawrhydi, sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion Cymreig (lle y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau, neu lle y mae gan Brif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol swyddogaethau), yn gofnodion cyhoeddus Cymreig.

Yn a.148(1)(f), nodir bod unrhyw gofnodion yn ymwneud â Chymru, a bennir drwy orchymyn gan yr Arglwydd Ganghellor, yn gofnodion cyhoeddus Cymreig; ac eithrio cofnodion y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad neu gofnodion unrhyw lys neu dribiwnlys neu a gedwir yn un o adrannau'r Uwchlysoedd.

At hynny, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a.2 yn nodi bod y cyrff canlynol yn gyrff cofnodion cyhoeddus Cymru:

(a) Cyngor Gofal Cymru,
(b) Cyngor Cefn Gwlad Cymru,
(c) Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru,
(d) Pwyllgorau Ymarferwyr Teulu ar gyfer Ardaloedd yng Nghymru,
(e) Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru,
(f) Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru,
(g) Ysbytai'r Gwasanaeth Iechyd, yn ystyr Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49), yng Nghymru,
(h) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru,
(i) Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru,
(j) Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant,
(k) Awdurdodau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer dosbarthau neu ardaloedd yng Nghymru, neu ardaloedd sy'n cynnwys Cymru, gan gynnwys Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae eu hysbytai, eu sefydliadau a'u cyfleusterau i gyd wedi'u lleoli yng Nghymru,
(l) Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru,
(m) Canolfan Iechyd Cymru, ac

(n) Bwrdd Iechyd Cymru.

Concordat rhwng Yr Archifau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rheoli cofnodion cyhoeddus

Atodiad B. Rhestr o sefydliadau y trosglwyddwyd eu swyddogaethau i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru neu allan ohoni.

Enw'r sefydliad	**Dyddiad trosglwyddo**
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (trosglwyddwyd i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru)	1 Ebrill 2002
Y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru (CAFCASS) (trosglwyddwyd i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru)	1 Ebrill 2005
Proffesiynau Iechyd Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)	Trosglwyddwyd swyddogaethau Proffesiynau Iechyd Cymru a staff cysylltiedig i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2006. Roedd hyn yn cynnwys y swyddogaethau Sicrhau Ansawdd a'r swyddogaethau Awdurdod Arolygu Lleol.
Comisiwn Iechyd Cymru (trosglwyddwyd i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru)	Ar 1 Ebrill 2003 trosglwyddwyd y Comisiwn i mewn i'r Cynulliad a bydd yn trosglwyddo allan ar 31 Mawrth 2010.
Swyddfa Renti (trosglwyddwyd i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru)	1 Ebrill 2003
Awdurdod Datblygu Cymru (trosglwyddwyd i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru)	Trosglwyddwyd 1 Ebrill 2006. Yn unol ag Offeryn Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005 Rhif 3226 (Cy.238), rhaid oedd trosglwyddo holl gofnodion a chronfeydd data'r Awdurdod i Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso'r broses o drosglwyddo swyddogaethau i'r corff hwn a gytunwyd drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar 22 Tachwedd 2005 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Bwrdd Croeso Cymru (trosglwyddwyd i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru)	Trosglwyddwyd 1 Ebrill 2006. Yn unol ag Offeryn Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005 Rhif 3225 (Cy.237), rhaid oedd trosglwyddo holl gofnodion a chronfeydd data'r Bwrdd i Swyddog

	Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso'r broses o drosglwyddo swyddogaethau i'r corff hwn a gytunwyd drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar 22 Tachwedd 2005 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) oedd y brand a ddefnyddid gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (trosglwyddwyd i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru)	Trosglwyddwyd 1 Ebrill 2006. Yn unol ag Offeryn Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005 Rhif 3238 (Cy.243), rhaid oedd trosglwyddo holl gofnodion a chronfeydd data Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant i Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso'r broses o drosglwyddo swyddogaethau i'r corff hwn a gytunwyd drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar 22 Tachwedd 2005 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) (trosglwyddwyd i mewn i Lywodraeth Cynulliad Cymru)	Trosglwyddwyd 1 Ebrill 2006. Yn unol ag Offeryn Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005 Rhif 3239 (Cy.244), rhaid oedd trosglwyddo holl gofnodion a chronfeydd data ACCAC i Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso'r broses o drosglwyddo swyddogaethau i'r corff hwn a gytunwyd drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar 22 Tachwedd 2005 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Cynllun Tir Gofal (trosglwyddwyd o Gyngor Cefn Gwlad Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru)	Trosglwyddwyd 16 Hydref 2006. Yn unol ag Offeryn Statudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006 Rhif 1717 (Cy.179), rhaid oedd trosglwyddo holl gofnodion a chronfeydd data Tir Gofal i Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru i hwyluso'r broses o drosglwyddo swyddogaethau i'r corff hwn a gytunwyd drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ar 28 Mehefin 2006 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Concordat rhwng Yr Archifau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch rheoli cofnodion cyhoeddus

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA – Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid)	Trosglwyddwyd Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid DEFRA i Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Hydref 2008.
Adnoddau Dynol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHSHR) – Cangen y Gweithlu ac Addysg	Ar 1 Ebrill 2006 trosglwyddwyd yr NHSHR – Cangen y Gweithlu ac Addysg yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH).
DYSG (DYSG oedd adran weithredol yr Asiantaeth Dysgu a Datblygu Sgiliau yng Nghymru)	Yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a.3(6), trosglwyddwyd holl gofnodion a chronfeydd data DYSG i Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hytrach na'u dinistrio ar 1 Mai 2006.
Comisiwn Sgrîn Cymru	Crëwyd yn 2002. Rhan o Wasanaeth Cefnogi Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cynulliad Cymru (Busnes Creadigol Cymru) a reolir gan Gyllid Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Sefydlwyd Cyllid Cymru gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2001 yn gwmni cyfyngedig i fuddsoddi ym musnesau ac economi Cymru.
Rheoli Pysgodfeydd a'r Môr	Trosglwyddwyd y swyddogaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2010.
Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru	Trosglwyddwyd y swyddogaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2010.
Uned Ddata Llywodraeth Leol	Trosglwyddwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill 2010.
Comisiwn Iechyd Cymru	Trosglwyddwyd y swyddogaeth o Lywodraeth Cynulliad Cymru i Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.